Prawf Cyfrifiad 2007

Beth yw'r Cyfrifiad?

Bob 10 mlynedd ers 1801, mae'r Deyrnas Unedig yn neilltuo un diwrnod ar gyfer y Cyfrifiad – cyfrif o'r holl bobl a'r holl gartrefi. Cynhaliwyd y Cyfrifiad diwethaf ar 29 Ebrill 2001.

Mae'r Cyfrifiad yn bwysig oherwydd mae pob unigolyn a phob cartref yn ateb yr un cwestiynau. Mae eu hatebion yn creu darlun manwl o fywyd yn y DU fel y mae yn awr.

Gan ddefnyddio'r wybodaeth hon, gall Llywodraeth ganolog, Llywodraeth leol, awdurdodau iechyd a llawer o sefydliadau eraill wella eu gwasanaethau i bobl leol. Bydd yr hyn y byddwn yn ei ddysgu o'r Cyfrifiad yn effeithio ar addysg, cynllunio, tai, iechyd a thrafnidiaeth.

Yng Nghymru a Lloegr mae'r Cyfrifiad yn cael ei gynllunio a'i gynnal gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS), sy'n adran o'r llywodraeth. Mewn rhannau eraill o'r DU, mae'r cyfrifoldeb yn nwylo Swyddfa Gofrestru Gyffredinol yr Alban ac Asiantaeth Ystadegau ac Ymchwil Gogledd Iwerddon.

Beth yw Prawf y Cyfrifiad?

Oherwydd bod y Cyfrifiad mor bwysig, mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn dechrau cynllunio a phrofi ei gwestiynau sawl blwyddyn ymlaen llaw. Mae'n rhaid i ni wneud yn siŵr bod y cwestiynau yn glir ac yn hawdd eu deall a'n bod yn casglu'r wybodaeth y mae ei hangen fwyaf.

13 Mai 2007 yw'r diwrnod cyntaf y byddwn yn profi'r cwestiynau ar gyfer Cyfrifiad 2011 gyda'r cyhoedd. Dewiswyd chi a llawer o bobl eraill yn eich ardal i gymryd rhan yn y prawf hwn, felly fe fyddem yn hoffi dweud ychydig amdano wrthych chi.

Prawf Cyfrifiad 2007

Gyda'r prawf hwn bydd y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn:

- rhoi cynnig ar syniadau a gweithdrefnau newydd a ddatblygwyd ers 2001
- dysgu pa gwestiynau sydd orau i gael y wybodaeth y mae arnom ei hangen
- helpu'r cyhoedd i gael gwybod am bwysigrwydd y Cyfrifiad a sut y gallant gymryd rhan
- barnu pa mor dda y mae ein cynrychiolwyr Cyfrifiad yn gweithio gyda'r cyhoedd, a
- rhoi cynnig ar ffyrdd newydd o weithio gydag awdurdodau lleol a grwpiau cymunedol.

Cyfrifiad Prawf 2007

Ble bydd Prawf 2007 yn digwydd?

Dewiswyd 100,000 cartref mewn pum ardal Awdurdod Lleol i gymryd rhan yn y Prawf. Mae pob un yn cynnwys croestoriad amrywiol o'r boblogaeth a'r mathau o dai yng Nghymru a Lloegr a fyddai'n cael eu cynnwys mewn cyfrifiad llawn.

Yr ardaloedd yw:

- Caerfaddon a Gogledd-ddwyrain Gwlad yr Haf
- Camden yng Ngogledd Llundain
- Sir Gaerfyrddin
- Lerpwl
- Stoke-on-Trent.

Beth fydd yn digwydd ar ddiwrnod Prawf y Cyfrifiad?

13 Mai 2007 yw Diwrnod Prawf y Cyfrifiad. Ar y diwrnod hwnnw dylech chi a phob aelod o'ch cartref lenwi Holiadur Prawf y Cyfrifiad. Byddwch wedi derbyn hwn naill ai trwy'r post neu gan gynrychiolydd Cyfrifiad a roddodd un i chi'n bersonol.

Dylech gofio cynnwys unrhyw ymwelwyr sy'n aros dros nos ar 13 Mai a babanod a phlant hefyd.

Wedi i chi lenwi eich Holiadur, postiwch ef yn ôl i brif swyddfa'r Cyfrifiad yn yr amlen ragdaledig.

Pwy sy'n gyfrifol am gynnal y Cyfrifiad a Phrawf y Cyfrifiad?

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol, Asiantaeth Ystadegau ac Ymchwil Gogledd Iwerddon a Chynulliad Cenedlaethol Cymru yn cydweithredu ar Brawf 2007. Yn 2011 bydd y cyrff yma a Swyddfa Gofrestru Gyffredinol yr Alban yn cydweithio i gynnal Cyfrifiad llawn yn y DU.

A fydd ffurflenni'r Cyfrifiad yn gyfrinachol?

Bydd y wybodaeth a roddir ar y ffurflenni yn cael ei thrin fel gwybodaeth gyfrinachol ac yn cael ei defnyddio i werthuso'r prawf a gwneud gwaith ymchwil yn unig. Ni fydd gwybodaeth a allai ddynodi pwy yw unigolion yn cael ei defnyddio y tu allan i'r Swyddfa Ystadegau Gwladol.

Mae cyfrinachedd gwybodaeth bersonol yn bwysig iawn i'r Swyddfa Ystadegau Gwladol. Mae'r ffurflenni Cyfrifiad yn cael eu casglu a'u prosesu mewn amodau diogel, ac mae Deddf (Cyfrinachedd) Cyfrifiad 1991 yn rhoi gwarchodaeth gyfreithiol trwy ei gwneud yn anghyfreithlon i ddatgelu gwybodaeth bersonol o'r Cyfrifiad.

Ffôn
0845 603 2011

Ffôn testun (i bobl â nam ar eu clyw)
0845 604 2011

Y We
www.statistics.gov.uk/censustest

Ystadegau Gwladol

PUB FS 01T (W)

Pa mor hir fydd hi'n ei gymryd i lenwi'r holiadur?

Dylai gymryd 20 munud i bob unigolyn lenwi'r holiadur.

Sut y bydd pobl yn gwybod am Brawf y Cyfrifiad?

Bydd y cartrefi a ddewiswyd i gymryd rhan yn derbyn cerdyn i roi gwybod iddynt eu bod wedi cael eu dewis i gymryd rhan ym Mhrawf y Cyfrifiad. Bydd yr holiaduron yn cael eu dosbarthu yn fuan wedyn. Efallai y byddwch yn clywed am y Prawf ar wasanaeth radio lleol neu yn y papur lleol.

Mae rhagor o wybodaeth am y Prawf Cyfrifiad ar gael ar wefan Ystadegau Gwladol:
www.statistics.gov.uk/censustest

A fydd y canlyniadau ar gael?

Na, dim ond ar gyfer gwerthuso'r prawf a gwneud gwaith ymchwil dilynol y bydd y wybodaeth ar y ffurflenni'n cael ei defnyddio.

Sut i adnabod cyfrifwr Cyfrifiad

Bydd gan holl gynrychiolwyr y Cyfrifiad (a elwir yn gyfrifwyr) Gerdyn Awdurdod. Bydd hwn yn cynnwys ffotograff o'r cyfrifwr, logo'r Swyddfa Ystadegau Gwladol a rhif ffôn y gallwch ei ffonio os oes gennych unrhyw ymholiadau. Bydd y cyfrifwyr hefyd yn cludo bagiau ysgwydd mawr du â logo Ystadegau Gwladol.

Pa gymorth fydd ar gael?

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau neu sylwadau am Brawf y Cyfrifiad 2007, cysylltwch â Llinell Gymorth y Cyfrifiad:

ar y ffôn ar: 0845 603 2011

Mae ffôn testun ar gael i bobl â nam ar eu clyw:
0845 604 2011

Mae llyfrynnau Print Bras a Braille ar gael i helpu pobl â nam ar eu golwg i lenwi'r holiadur.

Mae llyfrynnau wedi eu cyfieithu ar gael mewn dewis o ieithoedd eraill:

1. Albaneg
2. Arabeg
3. Bengaleg
4. Cantoneg
5. Ffrangeg
6. Mandarin
7. Pwyleg
8. Portwgeeg
9. Punjabi
10. Rwsieg
11. Somali
12. Wrdw

Cyfrifiad Prawf 2007

Llinell Amser Tasgau Allweddol y Cyfrifiad

Cartrefi yn cael gwybod am y Prawf	**21 Ebrill**
23 Ebrill	Llinell Gymorth y Cyfrifiad yn agor
Gwaith dosbarthu'r Holiaduron yn dechrau	**28 Ebrill**
13 Mai	**Diwrnod Prawf y Cyfrifiad**
Gwaith dilynol yn cychwyn	**23 Mai**
1 Mehefin	Arolwg gwerthuso'n dechrau
Gwaith dilynol yn dod i ben	**22 Mehefin**
25 Mehefin	Llinell Gymorth y Cyfrifiad yn cau
Gweithgareddau maes yn dod i ben	**22 Gorffennaf**

Ffôn
0845 603 2011

Ffôn testun (i bobl â nam ar eu clyw)
0845 604 2011

Y We
www.statistics.gov.uk/censustest

YSTADEGAU GWLADOL

PUB FS 01T (W)